Adroddiad ar

Cylch Meithrin Rhuthun

Cylch Meithrin Rhuthun
Lon Parcwr Industrial Estate
Ruthin
Denbighshire
LL15 1NJ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Rhuthun

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Rhuthun |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Alison Young |
| Person â gofal | Kate Griffiths |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00yb – 3.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 09/05/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/03/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod nifer priodol o ymarferwyr yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig llawn.

A2 Sicrhau bod pob ymarferydd yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ystyrlon ynghylch eu chwarae a’u profiadau dysgu. Mae bron bob plentyn yn symud yn hyderus rhwng yr ardaloedd dysgu ac yn dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Er enghraifft, wrth gyrraedd yn y bore maent yn mynd yn syth i chwarae yn annibynnol yn ardaloedd gwahanol y lleoliad. Mae llawer o blant yn gyfforddus yn gofyn am sylw gan ymarferwyr gan eu bod yn gwybod caiff eu dymuniadau a’u teimladau eu hystyried yn llawn.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd yn hapus, yn llawn bywyd ac yn barod i chwarae a dysgu. Maent yn mynd yn fodlon ac yn gyfforddus at ymarferwyr wrth adael eu rhieni neu ofalwyr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu’n gyflym iawn gan eu bod yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad. Maent yn teimlo’n ddiogel ac yn mwynhau’r cynhesrwydd o fod yng nghwmni eraill, megis eistedd ar lin ymarferwr yn ystod amser cylch neu wrando ar straeon. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes gyda’r ymarferwyr ac yn rhyngweithio’n dda ag ymwelwyr. Rhoddir y plant groeso cynnes i ymwelwyr, gan sgwrsio gyda hwy, a chynnig gwydriad o laeth iddynt o’r gornel chwarae rôl.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n dda ac yn datblygu medrau cymdeithasol pwysig. Maent yn cyd-chwarae neu’n chwarae ochr yn ochr â’i gilydd yn hwylus. Mae llawer o blant yn hapus i rannu adnoddau ac yn dangos diddordeb yn ymdrechion eu ffrindiau. Maent yn mwynhau cydweithio a chwblhau tasgau gyda’i gilydd. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig wrth chwilio am fetel mewn tywod gan ddefnyddio canfodydd metel, ac yn datgan gyda chyffro pan fyddant yn dod o hyd i wrthrych. Mae llawer o blant yn barod i gefnogi ei gilydd, megis helpu i symud mat er mwyn sicrhau bod digon o le i bawb eistedd yn ystod amser cylch. Mae bron bob plentyn yn hynod gyfeillgar a chwrtais tuag at ei gilydd.

Mae bron bob plentyn yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfleoedd dysgu sy’n eu galluogi i ddysgu, archwilio ac arbrofi yn hyderus. Maent yn mwynhau cyfri a threfnu gwrthrychau ac ymarfer ffurfio rhifau â sialc. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefel uchel o gymhelliant a dyfalbarhad wrth chwarae. Maent yn defnyddio’u dychymyg ac yn teimlo’n hyderus i symud adnoddau i ardaloedd gwahanol. Er enghraifft, maent yn cymryd eu hamser i goginio planhigion a pherlysiau yn y gegin fwd ac yn casglu dŵr o’r twba dŵr i’w ychwanegu at y gymysgedd, gan fwynhau chwarae rôl pwrpasol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, megis cadw eu cotiau a’u bagiau ac wrth ddefnyddio’r tŷ bach. Maent yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau o amgylch amser byrbryd, lle maent yn golchi a sychu eu dwylo cyn taflu’r papur i’r bin pedal. Yn

ogystal, maent yn gosod ffrwythau a chracers ar eu plât, ac yn arllwys llaeth neu ddŵr yn ofalus o jwg.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar addysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac maent yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Mae bob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol ac yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau diogelu'r lleoliad yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan bob ymarferydd dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig mewn argyfwng ac maent yn hyderus yn eu gallu i ofalu am blant yn briodol. Fodd bynnag, nid oes yr un ymarferydd wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig llawn sy'n ofynnol. Er hyn, maent yn dilyn gweithdrefnau'n fanwl, gan gadw cofnodion cywir o ddamweiniau a digwyddiadau. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau addas ar gyfer rhoi meddyginiaeth ac ar gyfer rheoli anghenion iechyd penodol plant unigol. Maent hefyd â dealltwriaeth dda o egwyddorion hylendid ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo a gwisgo ffedog wrth baratoi byrbryd ac yn diheintio arwynebau'n ofalus cyn i blant fwyta. Maent yn darparu byrbrydau a diodydd iach i blant ac yn sicrhau bod plant yn treulio amser yn yr awyr agored bob dydd. Mae'r system gofrestru plant yn drylwyr ac yn drefnus, ac maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion caniatâd perthnasol yn eu lle.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl â'r plant. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn barchus tuag atynt. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau cyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Maent yn canmol y plant yn rheolaidd am eu hymddygiad cadarnhaol, eu cymorth a'u hymdrechion. Mae ymarferwyr yn annog y plant i fod yn ofalus wrth dorri papur â siswrn ac yn esbonio sut i ddal y siswrn yn gywir. Mae bron bob ymarferydd yn gweithredu fel model rôl cadarnhaol ac yn rhyngweithio'n gefnogol drwy wrando, cydweithio ac egluro mewn modd clir a gofalgar. Maent yn cefnogi plant i ddisgwyl eu tro wrth iddynt baratoi ar gyfer amser byrbryd.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol ac effeithiol i adnabod a chefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adnabod diddordebau a chryfderau'r plant yn dda ac yn darparu profiadau cyfoethog sy'n meithrin medrau ac yn annog dysgu a darganfod trwy chwarae. Mae ymarferwyr yn derbyn cyngor a chymorth priodol gan asiantaethau allanol ac yn cydweithio'n effeithiol â nhw i gefnogi'r

plant. Yn ogystal, maent yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol, lle bo angen, i gryfhau eu gallu i gefnogi pob plentyn yn effeithiol.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus ac yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau plant. Maent yn sicrhau profiadau dysgu ysgogol sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Maent yn ystyried anghenion pob plentyn wrth gynllunio er mwyn darparu profiadau diddorol ac ysgogol ar eu cyfer. Mae ymarferwyr yn arsylwi'r plant yn rheolaidd gan addasu eu cynlluniau mewn ymateb i ddiddordebau'r plant. Maent yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant yn effeithiol. Mae hyn yn rhoi pob cyfle i blant lwyddo a gwneud cynnydd da.

Mae ymarferwyr yn paratoi ardaloedd dysgu a chwarae diddorol a phwrpasol tu fewn ac yn yr awyr agored, sy'n galluogi plant i ymarfer a chymhwyso eu medrau yn barhaus. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod ystod eang o offer a chyfarpar amrywiol ym mhob ardal sy'n annog bron pob plentyn i ddatblygu'n ddysgwr annibynnol ac yn ymchwiliwr hyderus yn eu hamgylchedd yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn paratoi ardaloedd darllen y tu fewn ac yn yr awyr agored sy'n denu'r plant i ddewis llyfrau yn annibynnol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i eistedd gyda'r plant ac i'w holi'n fedrus am y lluniau a'r storïau. Mae hyn yn cefnogi datblygiad dealltwriaeth y plant ac yn eu meithrin yn ddarllenwyr cynnar brwdfrydig. Mae ymarferwyr yn darparu creonau, sialc, pennau ffelt a thywod mewn sawl ardal sydd yn denu plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd cynnar. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd eang i'r plant ddatblygu eu medrau rhifedd drwy ystod o weithgareddau bwriadol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau addas ar gael i alluogi'r plant i ymarfer cyfrif, paru ac adnabod rhifau a phatrymau. Maent yn gwneud defnydd da o offer a chyfarpar i gefnogi datblygiad medrau corfforol y plant. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau corfforol mân a mawr drwy weithgareddau ymarferol megis arllwys, torri, cydio a dringo, yn ogystal â chynllunio sesiynau rheolaidd sy'n cefnogi rheolaeth gorfforol. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd cyson i alluogi plant i ddefnyddio ystod o offer digidol yn bwrpasol. Mae ymarferwyr yn annog defnydd ystyrlon o'r adnoddau hyn, gan gefnogi'r plant i gyfathrebu, archwilio a chofnodi mewn ffyrdd creadigol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd eang a diddorol i'r plant ddechrau deall ac adnabod elfennau o'u traddodiadau yng Nghymru mewn ffyrdd gwerth chweil. Mae hyn yn cynnwys dathliadau blynyddol pwysig i Gymru, sy'n canolbwyntio ar brofiadau a gweithgareddau ymarferol a diddorol, fel cymryd rhan mewn cyngerdd Gŵyl Ddewi. Mae ymarferwyr hefyd yn annog y plant i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau a ddathliadau gwahanol drwy brofiadau wedi'u cynllunio'n ofalus, gan gynnwys blasu bwydydd, creu addurnaidau ac efelychu patrymau gyda sialc a phaent.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da o weithgareddau, adnoddau a chyfleoedd i blant chwarae'n rhydd, ynghyd â thasgau sy'n cael eu harwain gan oedolyn. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda a phriodol o bryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu i blant barhau yn annibynnol yn eu chwarae. Mae ymarferwyr yn cwestiynu'r plant yn fedrus. Maent yn holi cwestiynau sydd yn profi a herio dealltwriaeth y plant yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol i annog plant i ddeall rheolau ymddygiad syml fel tegwch, gonestrwydd a pharch, a'u hannog i rannu adnoddau, cymryd tro a bod yn garedig gyda'i gilydd. Mae ymarferwyr yn modelu parch drwy ofyn am ganiatâd plant cyn defnyddio hances bapur i sychu eu trwyn. Mae ymarferwyr yn croesawu ymwelwyr i'r lleoliad er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant ac maent yn ymweld â busnesau cyfagos fel y ganolfan arddio, milfeddygfa a pherllan leol, i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithiol. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar waith i reoli mynediad i'r safle, ynghyd â gweithdrefnau clir sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi'n brydlon. Maent yn cadw cofrestr fanwl o blant ac ymarferwyr sy'n nodi amseroedd cyrraedd a gadael. Mae arweinwyr yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac yn eu cofnodi a'u dadansoddi. Maent yn cwblhau asesiadau risg trylwyr sy'n nodi peryglon posibl a'r mesurau i'w rheoli. Yn ogystal, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynnal gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes peryglon amlwg. Mae posteri, gweithdrefnau perthnasol a hysbysebion yn cael eu harddangos wrth y brif fynedfa fel bod gan rieni ac ymarferwyr fynediad at wybodaeth gyfredol am y lleoliad.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd sy'n groesawgar a chynnes ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod. Maent yn trefnu'r amgylchedd yn ofalus er mwyn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu addas i blant, ynghyd â mannau tawel i ymlacio. Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd dyddiol i blant ddefnyddio'r ardal awyr agored, gan eu hannog i fwynhau gweithgareddau megis adeiladu, creu sain neu fentro ar y ffrâm ddringo. Maent yn darparu toiledau addas, cyfleusterau golchi dwylo a man newid cewynnau sy'n sicrhau preifatrwydd. Mae arweinwyr yn meithrin ymdeimlad o berthyn ymhlith y plant drwy arddangos enghreifftiau o'u gwaith, ynghyd â ffotograffau ohonynt a'u teuluoedd.

Mae arweinwyr yn darparu cyfarpar addas ac yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau diddorol a chyffrous ar gael i blant. Mae'r adnoddau o safon uchel ac wedi'u gosod ar lefelau isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd atynt, sy'n eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae arweinwyr yn darparu deunyddiau naturiol a darnau rhydd i blant eu harchwilio. Maent hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau wedi'u hailddefnyddio, megis sosbenni ar y ffens i gynhyrchu sain. Mae eitemau o'r cartref

ar gael i blant eu defnyddio yn eu chwarae, gan feithrin eu chwilfrydedd a'u dychymyg. Yn ogystal, mae ystod o adnoddau ar gael sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant o'u teimladau, o anghenion gwahanol pobl ac o ddiwylliannau amrywiol, megis llyfrau, teganau ac offerynnau cerdd o wahanol wledydd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, ac mae'r rhain yn cael eu rhannu gyda gweddill yr ymarferwyr mewn modd cadarnhaol a phwrpasol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn sy'n cael ei gwreiddio ym mhob agwedd o waith y lleoliad. Mae ymarferwyr yn hybu diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi sefydlu ethos cadarnhaol, lle mae'r plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ymdeimlad o berthyn a pherthnasedd yn arbennig.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau priodol i arfarnu gwaith y lleoliad a nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn barod iawn i gydweithio a derbyn cyngor gan asiantaethau allanol drwy ymweliadau cefnogol rheolaidd ac wrth fynychu hyfforddiant, er mwyn gwella darpariaeth ac ansawdd y lleoliad. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o holl amgylchedd y lleoliad gan ystyried anghenion unigol bob plentyn yn greadigol ac yn fedrus.

Mae arweinwyr wedi gwirio addasrwydd bob ymarferydd sy'n sicrhau eu bod yn gymwys ac yn meddu ar y profiad perthnasol o weithio gyda phlant. Mae eu rolau a chyfrifoldebau'n glir. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyllid priodol yn cael ei neilltuo i gefnogi gwelliant, ac mae'r gwelliannau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gofal, y chwarae a'r dysgu.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd ymarferwyr, ac mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ennill cymwysterau ychwanegol ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu proffesiynol. Enghreifftiau diweddar o hyn yw hyfforddiant ar gyfathrebu a hyfforddiant ar gyfer gwneud y mwyaf o'r ardal goedwig. Mae arweinwyr yn adnabod cymwysterau a phrofiad priodol ymarferwyr gan sicrhau cyfleoedd iddynt rannu'r profiadau yma gyda gweddill yr ymarferwyr. Mae hyn oll yn cael effaith werthfawr ar allu'r ymarferwyr i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer y plant yn eu gofal.

Mae'r lleoliad yn cynnwys nifer fechan o ymarferwyr rheolaidd, ac maent yn trafod a sgwrsio'n anffurfiol bob dydd. Er hyn, nid yw'r drefn oruchwylio wedi'i ffurfioli'n ddigonol i sicrhau bod pob ymarferydd yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid ac asiantaethau er mwyn gwella iechyd, dysgu a lles y plant. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn mynychu cyfarfodydd gyda'r adran iechyd ac athrawon cysylltiol anghenion dysgu ychwanegol er mwyn galluogi mynediad plant i'r cylch. Mae arweinwyr yn addasu'r

ddarpariaeth yn gyson ac yn cydweithio'n agos â rhieni er mwyn sicrhau'r gorau i'r plant. Mae hyn yn hynod effeithiol ac yn cyfrannu at sicrhau ansawdd gofal a lles o safon uchel. Mae arweinwyr yn casglu syniadau a barn rhieni a gofalwyr yn flynyddol. Maent yn rhannu llwyddiannau a cherrig milltir datblygiadol y plant yn anffurfiol wrth iddynt ollwng neu gasglu eu plant. Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd drwy gyfryngau cymdeithasol addas. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd ffurfiol i rieni a gofalwyr fynychu'r lleoliad er mwyn clywed am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2026